Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Lloegr) 2013
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Yr Alban) 2013
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014
Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 sy'n gosod rheolau iechyd ynglŷn â sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl a Rheoliad Gweithredu (CE) Rhif 142/2011

Ffurflen Gais ac Arolygiad i Gymeradwyo Safle Storio Cynhyrchion Deilliedig i'w Compostio a/neu Weddillion Treuliad Anaerobig yn unig

Cyfeiriad APHA:

ABP Team, APHA Customer Service Centre, Oak House, Bridgwater Road, Worcester, WR4 9FQ

Dyddiad Derbyn:

Rhif Cyfeirnod:

Dyddiad yr Arolygiad:

Pwysig - cyfarwyddiadau i geiswyr. Mae'r adrannau o'r ffurflen gais hon yn dilyn y drefn gyffredinol a esbonnir isod.

- **Gofynion cyfreithiol.**Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cymeradwyo cais. Dylai ceiswyr sicrhau bod mangreoedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn cyn anfon eu cais i'w gymeradwyo.
- **Canllawiau.** Mae'r nodiadau hyn ond yn rhoi crynodeb ac ni ddylid ystyried eu bod yn gynhwysfawr.
- **Manylion.** Gwybodaeth sydd i'w darparu gan y ceisydd. Os nad oes digon o le ar y ffurflen hon, parhewch ar y tudalennau gwag a atodir, gan ddyfynnu rhif yr adran berthnasol.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch y copi llofnodedig at y Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (yn y cyfeiriad uchod) neu mewn e-bost i:
CSCOneHealthABP@apha.gov.uk

Enw'r ceisydd:

Enw'r gweithredwr neu'r cwmni os yw'n wahanol:

Cyfeiriad post llawn y fangre:

Cod post:

Rhif ffôn (yn cynnwys y cod deialu Cenedlaethol):

Rhif ffacs. (yn cynnwys y cod deialu Cenedlaethol):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif y daliad (os yw'n gymwys):

Cyfeirnod map grid yr Arolwg Ordnans (os yw'n hysbys)

Canllawiau ar Ffioedd Ar-lein

Bydd angen talu ffioedd gwneud cais a ffioedd arolygu parhaus. Gweler y ddeddfwriaeth berthnasol isod:

- **Lloegr** - Rheoliadau Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Lloegr) 2018
- **Yr Alban** - Rheoliadau Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Yr Alban) 2018
- **Cymru** - Rheoliadau Ffioedd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Cymru) 2018

Enw'r cwsmer (cwmni):

Noder:

- rhaid i'r manylion ym maes enw'r cwsmer uchod gael eu nodi **yn union** fel y byddant yn ymddangos ar anfonebau
- rhaid sicrhau mai enw'r cwsmer yw'r **enw masnachu cyfreithiol llawn**
- **peidiwch** â defnyddio blaenlythrennau na byrfoddau

A ydych yn cynrychioli adran o'r llywodraeth neu sefydliad cyhoeddus? (Ydw/ Nac ydw)

Cyfeiriad Bilio ar gyfer y cwmni (os yw'n wahanol i'r Cyfeiriad Gohebu uchod):

Cod post:

Gwlad:

Rhif cofrestru TAW:

Manylion cyswllt ar gyfer anfonebau/bilio

Cyfeiriad e-bost cyswllt (ar gyfer pob anfoneb yn ymwneud â'r safle uchod):

Enw llawn yr unigolyn cyswllt:

Rhif ffôn:

1. Mangre (1)

Gofyniad. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol na fydd unrhyw un yn gweithredu safle storio cynhyrchion deilliedig oni bai bod y fangre wedi'i chymeradwyo.

Er mwyn cael ei gymeradwyo, rhaid i safle storio cynhyrchion deilliedig gydymffurfio â Rheoiad (CE) Rhif 1069/2009 Erthyglau 25 ac 28 o ran hylendid cyffredinol a hunanwiriadau. Rhaid iddo hefyd gydymffurfio â Rheoliad (CE) Rhif 142/2011 Atodiad IX; Pennod III (cynhyrchion deilliedig).

Canllawiau.

Rhaid bod lloriau wedi'u hadeiladu mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu glanhau a'u diheintio os yw'r risg yn cyfiawnhau hynny. Rhaid cyfyngu ar unrhyw hylif sy'n trwytholchi o'r deunydd sy'n cael ei storio a sicrhau nad oes risg y bydd yn halogi cyrsiau dŵr.

Dylai cyfleusterau digonol i'r staff fod ar gael. Gall hyn olygu bod cyfleusterau i'r staff megis toiledau yn cael eu darparu oddi ar y safle.

Rhaid gwneud trefniadau i ddiogelu rhag plâu, ond rhaid i drefniadau rheoli plâu fod yn berthnasol i'r risg.

Manylion. Rhowch fanylion ynglŷn â sut y byddwch yn cydyymffurfio â'r pwyntiau a restrir uchod.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

2. Mangre (2)

Gofyniad. O dan Atodiad IX, Pennod II Adran 1, rhaid i'r fangre gael ei gwahanu'n ddigonol oddi wrth dramwyfeydd y gall halogiad ledaenu drwyddynt ac oddi wrth fangreoedd eraill megis lladd-dai.

Manylion. Darparwch gynllun o'r safle yn dangos ei leoliad, mewn perthynas â da byw, priffyrdd a mangreoedd eraill. Os oes safleoedd ar gyfer categorïau gwahanol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar yr un safle dangoswch y berthynas rhyngddynt.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

3. Cludo

Gofyniad.

Rhaid cludo deunydd mewn cynwysyddion wedi'u gorchuddio sy'n atal gollyngiadau neu gerbydau sy'n cael eu glanhau, eu golchi a'u diheintio ar ôl pob defnydd, sydd bob amser mewn cyflwr glân ac yn sych cyn eu defnyddio. Wrth gludo deunydd, rhaid bod y cerbydau a'r cynwysyddion wedi'u labelu â'r categori o sgil-gynnyrch a rhaid bod y geiriau ‘organic fertilisers or soil improvers/no grazing of farmed animals or use of crops as herbage during at least 21 days following application’ yn cael eu defnyddio ar bob math o becynwaith, oni bai ei fod mewn pecynnau parod i'w werthu nad ydynt yn pwyso mwy na 50kg at ddefnydd defnyddwyr terfynol mewn garddwriaeth, caeau chwaraeon neu erddi ac ar y cerbyd, os yw'r deunydd yn cael ei gludo yn un swp.

Os nad yw cyfleusterau i lanhau a diheintio'r cerbydau dosbarthu ar gael ar y safle, gellir eu darparu oddi ar y safle. Rhowch fanylion y cyfleuster glanhau oddi ar y safle.

Manylion. Disgrifiwch y trefniadau i gludo i'r safle ac o'r safle a sut y caiff y gofynion eu bodloni.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

4. Dogfennau Masnachol

Gofyniad

Rhaid i ddogfen fasnachol gael ei hatodi i'r anfoniad sy'n cofnodi:

(a) Y dyddiad anfon

(b) Disgrifiad o'r sgil-gynnyrch

(c) Nifer

(d) Tarddle

(e) Enw a chyfeiriad y cludwr

(f) Enw a chyfeiriad y derbynnydd.

Hefyd, rhaid i'r geiriau ‘organic fertilisers or soil improvers/no grazing of farmed animals or use of crops as herbage during at least 21 days following application’ fod ar y ddogfen fasnachol.

Rhaid i'r fersiwn wreiddiol o'r ddogfen fasnachol (tri chopi i gyd) gael ei hatodi i'r anfoniad a'i chadw gan y derbynnydd, a rhaid i gopi gael ei chadw gan yr anfonwr a'r cludwr.

Atodwch gopi o'r ddogfen fasnachol a gaiff ei defnyddio.

At ddefnydd swyddogol yn unig

5. Cadw Cofnodion

Gofyniad. Mae Atodiad VIII Pennod IV o'r Rheoliad Gweithredu yn rhoi'r gofynion ynglŷn â'r cofnodion i'w cadw.

Canllawiau. Dylid defnyddio'r wybodaeth yn y ddogfen fasnachol i baratoi'r cofnod, neu gall ffurfio'r cofnod ei hun fel a ganlyn (gweler adran 4):

- Ym mhob achos gwybodaeth yn (b) ac (c)
- Wrth anfon cynhyrchion (a), (e) ac (f)
- Wrth gludo cynhyrchion (a), (d) ac (f)
- Wrth dderbyn cynhyrchion (d), (e) a'r dyddiad.

Rhaid hefyd gofnodi rhif cymeradwyaeth y safle gwreiddiol a natur y driniaeth a'r dull o drin y sgil-gynhyrchion anifeiliaid os yw hynny'n briodol. Rhaid cadw cofnodion am ddwy flynedd.

Manylion. Rhowch fanylion ynglŷn â sut y bwriedir cadw'r cofnodion, gan gynnwys, lle y bo angen, y trefniadau ar gyfer copïau wrth gefn/adalw gwybodaeth os yw cofnodion electronig yn cael eu cadw.

At ddefnydd swyddogol yn unig:

6. Asesiad Risg

Yng Nghymru a Lloegr, atodwch yr asesiad risg sy'n disgrifio sut yr ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol.

i) Rhaid i'r deunydd gael ei dderbyn mewn pecynwaith neu mewn cynwysyddion neu ddull cludo sy'n atal gollyngiadau ond gellir ei storio y tu allan os na fydd hynny'n achosi risgiau annerbyniol.
ii) Rhaid bod lloriau wedi'u hadeiladu mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu glanhau a'u diheintio fel y bo'n briodol i'r risg. Rhaid cyfyngu ar unrhyw hylif sy'n trwytholchi o'r deunydd sy'n cael ei storio a sicrhau nad oes risg y bydd yn halogi cyrsiau dŵr.
iii) Dylai cyfleusterau digonol i'r staff fod ar gael. Gall hyn olygu bod cyfleusterau i'r staff megis toiledau yn cael eu darparu oddi ar y safle.
iv) Rhaid gwneud trefniadau i ddiogelu rhag plâu, ond rhaid i drefniadau rheoli plâu fod yn berthnasol i'r risg.
v) Gellir darparu cyfleusterau i lanhau a diheintio'r cerbydau dosbarthu oddi ar y safle lle y bo'n briodol.

Llofnod y ceisydd

Dyddiad

Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth
Nodir sut rydym yn defnyddio eich data personol yn ein siarter gwybodaeth bersonol a'n hysbysiadau preifatrwydd:

- https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter
- https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-heath-agency-privacy-notices

Mae'r cais hwn yn ymwneud â'r Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid yn unig.Nid yw'n ymwneud â materion megis caniatâd cynllunio neu reolaeth amgylcheddol.Mae'n debygol y bydd angen awdurdodiadau eraill.

Noder: Ar ôl adroddiad boddhaol gan yr arolygydd, gellir rhoi cymeradwyaeth dros dro, fel arfer am gyfnod o dri mis.

Y Ddeddf Diogelu Data
Bydd manylion enw a chyfeiriad y busnes a'r math o fusnes a'i rif cofrestru ar gael yn gyhoeddus, a hynny er mwyn galluogi'r rhai y mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn eu meddiant i nodi busnesau dilys a'n galluogi ni i gyflawni rhwymedigaethau'r UE i roi manylion mangreoedd cymeradwy a chofrestredig i'r Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau eraill. Gall y manylion uchod hefyd gael eu defnyddio gan Defra, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru a'u rhannu gyda'i gilydd a gyda chyrff cyhoeddus at ddibenion y Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid a materion cysylltiedig, ac i ymgynghori ar faterion sy'n berthnasol i'ch busnes. Mae'n bosibl y bydd yr holl fanylion ar y ffurflen gais hon yn cael eu darparu i'r awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill at ddibenion gorfodi a pholisi.

At ddefnydd swyddogol yn unig

Sylwadau'r Arolygydd:

Argymhelliad yr Arolygydd:

(Gwrthod/Angen gwaith pellach/ Cymeradwyo

Enw'r Arolygydd:

Gradd:

Nodiadau i arolygwyr ar roi cymeradwyaeth

1. Yng Nghymru a Lloegr, gofynnwch i'r deiliad AB58 ei gydlofnodi. Mae'r Tîm Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, CSC One Health yn cadw rhestr o'r holl ddeiliaid AB58.

   Yn yr Alban, anfonwch yr argymhelliad at y Milfeddyg Arweiniol.

2. Yng Nghymru a Lloegr, os bydd y deiliad AB58 yn cytuno, rhowch y gymeradwyaeth.

   Yn yr Alban anfonwch yr argymhelliad at Lywodraeth yr Alban i roi'r gymeradwyaeth.

3. Yng Nghymru a Lloegr, anfonwch gopi i:

   - CSC One Health: CSCOneHealthABP@apha.gov.uk
   - Yr Awdurdod Lleol
   - Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru

   Yn yr Alban, anfonwch gopi at Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban

At ddefnydd swyddogol yn unig

Awdurdodiad Deiliad AB58

Sylwadau a dyddiad nodi ymlaen:

Llofnod Deiliad AB58:

Enw mewn priflythrennau:

Dyddiad:

Noder:

- Yng Nghymru a Lloegr, Deiliaid AB58 sy'n gyfrifol am ddiwygio cymeradwyaethau ac atal cymeradwyaethau. Gellir ymgynghori â'r Rhwydwaith Cyflawni Gweithredol wrth lunio argymhelliad.
- Yn yr Alban, Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am ddiwygio ac atal cymeradwyaethau. Gellir ymgynghori â'r Rhwydwaith Cyflawni Gweithredol wrth lunio argymhelliad.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.